UCHELGAIS PRIFDDINAS

CAPITAL AMBITION




# Dadansoddiad o Ymatebion yn cynnwys Ymgynghoriad Disgyblion

**Ebrill 2018**

**Cynhyrchwyd gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd ar ran Cyfarwyddiaeth Addysg Cyngor Caerdydd**

Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, working together

#gweithiogydangilydd
#workingtogether

CARDIFF CAERDYDD

CARDIFF RESEARCH CENTRE

# Ymgynghoriad ar Wella ac Ehangu Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghaerdydd.

## Cefndir

Mae poblogaeth gynyddol yn golygu bod nifer cynyddol o ddysgwyr angen ysgol arbennig neu leoedd o fewn canolfan adnoddau arbenigol. Mae gan Gaerdydd saith ysgol arbennig sy'n cynnig anghenion addysgol i 570 o ddisgyblion rhwng 4 a 19 oed. Mae cyfres o gynigion wedi cael eu cyflwyno i ehangu, ac mewn rhai achosion, addasu lefel gyfredol y ddarpariaeth i helpu i ddiwallu'r angen cynyddol hwn.

Mae'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon yn cynrychioli cam cyntaf mewn rhaglen dreigl o fentrau a ddyluniwyd i sicrhau bod darpariaeth ADY yn diwallu'r angen ledled y ddinas.

Mae Cyngor Caerdydd wedi ceisio ymgysylltu â'r rhai y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt gan gynnwys disgyblion, rhieni, cyrff llywodraethu a staff addysgu. Drwy wrando'n effeithiol, ein nod yw amddiffyn yr hyn sydd bwysicaf i ysgolion, disgyblion a rhieni, a lliniaru unrhyw bryderon cyn i newidiadau gael eu gwneud.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys trosolwg cyffredinol o'r darganfyddiadau ochr yn ochr â dadansoddiad o'r canlyniadau fesul ysgol.

## Methodoleg

**Arolwg cyhoeddus ar-lein –** Arolwg ar-lein wedi'i ddylunio i'w gwblhau gan Rieni, Llywodraethwyr, athrawon a'r cyhoedd.

**Arolwg ar-lein / papur i ddisgyblion -** Cafodd disgyblion y brif ffrwd gyfle i fynegi eu barn ar y cynigion a gofnodwyd trwy arolwg ar-lein neu bapur yn yr ystafell ddosbarth.

**Gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth i ddisgyblion ag ADY –** roedd hyn yn cynnwys nifer o weithgareddau cyfranogol megis pleidleisio, sgorio a rhesymu ar lafar. Cafodd trafodaethau grŵp ffocws pwrpasol eu hwyluso gyda disgyblion hŷn, i geisio barn ac ymdrin â phryderon o ran y cynigion.

## Gweithgareddau hyrwyddo

- E-byst cychwynnol i'r 8 ysgol yn cynnwys y cynigion gyda chyfarfodydd dilynol wyneb yn wyneb yn cael eu cynnig i drafod y cynlluniau ar gyfer yr ymgynghoriad.
- Roedd dolenni i'r arolwg cyhoeddus ar gael ar dudalennau addysg y Cyngor yn ogystal â'r tudalennau ymgynghori 'dweud eich dweud'.
- Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo ar gyfrifon Twitter / cyfryngau cymdeithasol yr ysgolion perthnasol.
- Rhoddwyd baner ar dudalen flaen www.caerdydd.gov.uk er mwyn i fwy o aelodau'r cyhoedd weld yr ymgynghoriad.
- Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg i hyrwyddo'r ymgynghoriad.
- Cafodd posteri eu dylunio a'u dosbarthu i ysgolion i helpu i hyrwyddo'r newidiadau a chyfeirio pobl i'r holiadur.
- Anfonwyd e-byst atgoffa at yr holl benaethiaid.
- Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad trwy wefan CLG addysg.

## YMATEB

Cafwyd ymatebion i'r ymgynghoriad trwy amryw ffynonellau gan gynnwys dau arolwg ar wahân yn ogystal â sylwadau agored i'r cynigion trwy lythyrau ac e-byst.

| Dull | Nifer |
|---|---|
| Arolwg Cyhoeddus (ar-lein a chopi caled) | 197 |
| Arolwg Disgyblion (ar-lein a chopi caled) | 399 |
| Gohebiaeth arall | 15 |
| Cyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau ystafell ddosbarth | 31 |
| **CYFANSWM** | **642** |

## CANLYNIADAU – TROSOLWG AR YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

- Roedd amrywiadau sylweddol o ran y lefel cyfranogi ar draws pob un o'r wyth ysgol.

- Mynegodd sawl athro'r un farn *'rydyn ni wedi bod i lawr y lôn hon droeon o'r blaen'* mewn perthynas â darpariaeth ADY. O ganlyniad, nid oedd pawb yn frwdfrydig dros yr addewid o newid. Er gwaethaf hyn, cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol, a chredai rhai fod y cynlluniau fel pe baent yn dechrau symud y tu hwnt i'r hyn a oedd wedi digwydd o'r blaen.

- Gydag un neu ddau eithriad, Ysgol Hollies ac Ysgol Gynradd Allensbank, canfu'r ymgynghoriad lefel uchel o gefnogaeth tuag at y cynigion mewn egwyddor. Teimlai athrawon, rhieni a disgyblion yn gadarnhaol tuag atynt. I'r gwrthwyneb, mynegwyd pryderon ynghylch rhoi'r cynigion ar waith, gyda diffyg manylion. Roedd ymatebwyr eisiau sicrwydd er eu bod wedi cymeradwyo'r cynlluniau mewn egwyddor y byddai unrhyw gamau gweithredu yn sicrhau cyfleusterau ac adnoddau digonol i ddiwallu'r niferoedd cynyddol.


- Cymerodd pobl ifanc ran actif yn y broses ymgynghori a mynegi brwdfrydedd yn y rôl. Bu i ddisgyblion o Ysgol Greenhill, Ysgol Arbennig Meadowbank ac Ysgol Glantaf wneud cyfraniad ystyrlon gan rannu safbwyntiau defnyddiol o ran eu hamgylcheddau dysgu.

- Gofynnwyd i ysgolion hyrwyddo arolwg ar wahân wedi'i chreu'n arbennig i ddisgyblion. Cafwyd cyfanswm o 399 arolwg wedi'u cwblhau, ond roedd y mwyafrif o'r rhain wedi dod o un ysgol – Ysgol Glantaf gyda 366 o ymatebion.


## CANLYNIADAU'R HOLIADUR

### Proffil yr Ymatebwyr

Roedd rhieni'n gyfrifol am fwy na hanner (54%) o'r ymatebion i'r arolwg cyhoeddus. Roedd staff addysgu'n gyfrifol am fwy na chwarter a llywodraethwyr ysgol am tua deg y cant. Roedd y rhai a nododd 'arall' yn cynnwys amrywiaeth o rolau gan gynnwys therapyddion iaith a lleferydd, seicolegwyr a gweithwyr cymorth.






Daeth y nifer uchaf o ymatebion gan y rhieni hynny â phlant ar gofrestr Ysgol Pwll Coch (47).



**Ydych chi'n gefnogol o'r cynlluniau a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth i Blant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?**

Nododd bron i dri chwarter (72%) ymatebwyr yr ymgynghoriad cyhoeddus eu bod nhw'n cefnogi'r cynigion yn gyffredinol.



Gan ddadansoddi'r canlyniadau yn ôl ysgolion unigol, dangoswyd y lefel uchaf o gefnogaeth i'r cynigion ar gyfer Ysgol Glantaf ac Ysgol Pwll Coch (y ddwy gyda 82% yn gefnogol).


Roedd y gyfran uchaf o ymatebion yn gwrthwynebu'r cynigion yn ymwneud ag Ysgol Hollies (19%).

Roedd tua dwy ran o bump (41%) o ymatebwyr yn ansicr o ran y cynigion a wnaed ar gyfer dyfodol darpariaeth ADY yn Ysgol Gynradd Allensbank.

**Oes gennych chi unrhyw bryderon penodol?**

Nododd 78 o ymatebwyr fod ganddynt bryderon penodol ynghylch y cynigion.


Roedd y nifer uchaf o bryderon yn ymwneud ag Ysgol Arbennig Hollies.



**YSGOL GYNRADD ALLENSBANK**

Y cynnig oedd cael gwared ar y ganolfan adnoddau arbenigol ar gyfer disgyblion â namau iaith penodol ac agor dosbarth ymyrraeth gynnar gydag wyth lle (cohort 1af Medi 2019).

- Roedd gan chwe ymatebydd ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.
- Cyflwynwyd ymatebion ychwanegol hefyd ar ran corff llywodraethu'r ysgol a'r tîm addysgu arbenigol yn ogystal â phartïon â diddordeb ymysg y boblogaeth ehangach.
- Yr ymateb i'r cynlluniau a amlinellwyd ar gyfer Ysgol Gynradd Allensbank a gododd y lefelau uchaf o ansicrwydd ymysg ymatebwyr.
- Yn gyffredinol roedd y Corff Llywodraethu yn gefnogol o'r cynigion ac yn cydnabod bod y model o ymyrraeth gynnar a gynigir yn un '*cadarn*'.




Cododd deg ymatebydd bryderon neu sylwadau penodol mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig. Daeth nifer o'r rhain o'r tîm addysgu presennol yn yr ysgol yn ogystal â rhieni a llywodraethwyr.

Cyflwynwyd ymholiadau o ran p'un a oedd 8 lle yn ddigonol i ddiwallu'r galw. Hefyd, roedd ymatebwyr eisiau eglurhad o ran y meini prawf ar gyfer mynediad i'r dosbarth a'r dull i alluogi symud ymlaen.

Cododd y Tîm Addysgu Arbenigol yn Ysgol Gynradd Allensbank nifer o bwyntiau i'w hystyried. Credent fod angen ystyriaeth bellach mewn perthynas â'r cymysgedd oedran ac anghenion, os yw'r dosbarth hwn, fel y cynigiwyd, yn un a fydd yn newid ac yn esblygu'n gyson. Cwestiynwyd hefyd p'un ai'r gymhareb 4:1 fyddai'r un mwyaf effeithiol o ran rhyngweithio cymdeithasol a pharu'r cwricwlwm.


Fel dewis amgen, awgrymodd y tîm 2 gohort o hyd at 8 yn mynychu ar sail 2 ddiwrnod. Teimlent y byddai hyn yn ehangu'r amser mewn darpariaeth prif ffrwd ac yn rhoi cyfle gwell ar gyfer cymysgedd oedran / anghenion cydnaws. Gellid defnyddio gweddill y diwrnod yn effeithiol ar gyfer allgymorth gan y tîm i gefnogi'r disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd.

Nododd sawl ymateb yr hoffent weld ymglymiad gan Meadowbank gan fod adnoddau ac arbenigedd eisoes mewn lle yn y safle hwnnw.

**YSGOL GREENHILL**

Mae gan Ysgol Greenhill ystod oedran o 11-16 ar hyn o bryd; cynigir ymestyn yr ystod oedran i 19 i wella pontio i gyflogaeth, coleg neu hyfforddiant.

- Roedd gan 18 ymatebydd ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.
- Cafwyd ymatebion gan ddeng rhiant / gwarcheidwad. Cyflwynwyd ymatebion ychwanegol hefyd gan ddetholiad o athrawon, staff cymorth a llywodraethwyr ysgol yn ogystal â phartïon â diddordeb ymysg y boblogaeth ehangach.
- Roedd tri chwarter (74%) yr ymatebion yn cefnogi'r cynigion ar gyfer yr ysgol. Dim ond 4% o ymatebion oedd yn gwrthwynebu'r cynigion.




Roedd cymorth sylweddol yn amlwg i'r cynnig gan athrawon, disgyblion a rhieni:

*"Rwy'n credu bod y ddarpariaeth chweched dosbarth yn rhan allweddol o helpu ein disgyblion yma i symud ymlaen a bod yn llwyddiannus. Mae arnom angen darpariaeth chweched dosbarth ers blynyddoedd, a dros y cyfnod hwn rwyf wedi gweld plant agored i niwed yn gadael ein canolfan ddiogel ac yn hytrach na mynd i leoliadau eraill, heb gael y*

*gefnogaeth gan yr awdurdodau a gartref, maen nhw wedi disgyn trwy'r rhwyd. Felly dyma adael i genhedlaeth arall syrthio wrth ymyl y ffordd. Mae'r cynnig hwn yn gam enfawr ymlaen at helpu ein holl ddisgyblion i lwyddo." (cynorthwyydd addysgu yn Greenhill)*

*"Pe baem yn gallu cael blwyddyn ychwanegol byddai hynny yn fy ngalluogi i ddal i fyny ar bethau rwyf wedi eu methu – fe wnes i golli tair blynedd o'r ysgol cyn i mi ddod yma." (Disgybl yn Greenhill)*

Cododd naw ymatebydd bryderon penodol mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig. Roedd sylwadau a wnaed gan athrawon, staff cymorth a llywodraethwyr yn amlygu'r anawsterau posibl o ran effaith disgyblion o'r tu allan i Greenhill yn ymuno â'r ysgol ar gyfer addysg ôl-16. Felly mae angen eglurhad pellach i gadarnhau i staff bod y cynnig presennol yn ymwneud â'r disgyblion hynny sydd eisoes yn Greenhill yn unig.

## Ymgynghoriad Disgyblion

- Cymerodd deunaw disgybl o Greenhill ran yn yr arolwg ar-lein mewn perthynas â'r newidiadau a chymerodd chwech arall ran mewn gweithgareddau grŵp ffocws lle ystyriwyd y cynigion mewn mwy o fanylder.

- Dywedodd disgyblion eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd y mae Greenhill a'r staff yn eu cynnig iddynt. Pan ofynnwyd iddynt sut roedd Greenhill yn cymharu â'u hysgolion prif ffrwd blaenorol roedd atebion yn cynnwys – "Gwych" a "Gwell". Roedd sylwadau pellach yn cynnwys:

*"Maen nhw'n gwneud i ni wneud rhywfaint o waith ond ddim yn ein gorfodi, maen nhw'n ein helpu; mewn ysgol prif ffrwd, ni fydden ni'n cael help".*

*"Mae rhai plant eisiau bod yma oherwydd yr amgylchedd teuluol."*

- Roedd rhai o'r pethau yr oedd y disgyblion yn eu hoffi fwyaf am yr ysgol yn cynnwys y cyfle i roi cynnig ar bethau newydd a chael astudio am gymwysterau ffurfiol. Roedd hyn yn cynnwys teithiau a thripiau rheolaidd ond hefyd yn cynnwys y cyfle i ddysgu crefftau fel mecaneg, plastro a gofalu am anifeiliaid.

- Cadarnhaodd athrawon y newid mewn ffocws dros y blynyddoedd diweddar o ran datblygiad disgyblion ôl 16:

> *"Pan oedden nhw'n gadael Greenhill blynyddoedd yn ôl doedd dim cefnogaeth bellach, ond nawr mae'r holl ddisgyblion yn cael eu hannog i fynd ymlaen i gyflogaeth neu addysg bellach, i nifer ohonyn nhw, nhw yw'r cyntaf yn eu teulu i fynd i'r coleg."*

- Roedd gan fwyafrif y disgyblion syniad ynghylch beth roedden nhw eisiau ei wneud yn dilyn Greenhill. I rai, roedd hyn yn cynnwys cyrsiau galwedigaethol mewn coleg, i eraill dod o hyd i waith neu ymuno â'r lluoedd arfog. Roedd disgyblion yn cydnabod y cymorth a geir yn yr ysgol i'w helpu i symud ymlaen yn llwyddiannus. Er gwaethaf hyn, roedd nifer yn bryderus ynghylch gadael yr ysgol ac yn dweud eu bod yn 'nerfus' ac yn poeni y bydd 'yn wahanol iawn'.

- Dywedodd nifer o ddisgyblion y byddai cael cyfle i aros yn Greenhill am flwyddyn arall o bosibl yn eu galluogi i ennill sgiliau a chymwysterau ychwanegol ac yn eu paratoi'n well ar gyfer bywyd ar ôl ysgol:

*"Aros yn yr ysgol yn hirach, cael cyfle i wneud mwy o arholiadau a chael mwy o gymwysterau."*

*"Byddaf yn gallu cael addysg bellach."*

- Mynegwyd cefnogaeth eang ar gyfer y cynnig i ddatblygu safle'r gofalwr (Tŷ Ray) yn gyfleuster 6ed dosbarth gyda mwy na hanner yn nodi y byddai ganddynt ddiddordeb mewn aros am flwyddyn ychwanegol os yn bosibl. Cafodd y cynnig ei hun ei ddisgrifio gan ddisgyblion fel 'gwych', 'cŵl', ac 'ei angen'.

- Roedd disgyblion yn gyflym i feddwl am bosibiliadau'r cynnig gan astudio mapiau o'r adeilad cyn creu rhestr dymuniadau o gyfleusterau a manylebau yr hoffent eu gweld yn y cynlluniau terfynol. Roedd y rhain yn cynnwys:


    - Mynediad caeedig i ddisgyblion blwyddyn 12 yn unig – trwy ffob diogelwch o bosibl i ganiatáu rhywfaint o breifatrwydd.
    - Popty mawr ar y safle er mwyn gallu paratoi cinio yn ogystal â dysgu sgil am oes.
    - Lle ymlacio gyda theledu / soffa / cyfrifiadur.
    - Campfa
    - Ardal fecanyddol
    - Ardal tu allan gyda seddi, lle tân, rhandir. Roedd gan rai disgyblion hefyd ddiddordeb mewn defnyddio rhywfaint o'r ardal tu allan i ofalu am anifeiliaid megis cwningod neu ieir.
    - Peiriant golchi ar gyfer sgiliau oes.
    - Ystafelloedd ymolchi a swyddfa staff.
    - Roedd disgyblion yn awyddus i'r adeilad deimlo'n gartrefol, gan hyd yn oed awgrymu gwisgo sliperi y tu mewn.

Roedd disgyblion hefyd yn awyddus iawn i gael cyfle i ymweld â'r adeilad ei hun i gael ymdeimlad gwell o'r lle sydd ar gael.

**YSGOL ARBENNIG THE HOLLIES**

Cynigir cynyddu'r niferoedd disgyblion i 138. Symud i ddull safle wedi'i rannu gan ddefnyddio safle gwag Glan Morfa a chyflwyno dewis i ddisgyblion aros yn Hollies rhwng 11 a 14 oed.

- Roedd gan 16 ymatebydd ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.
- Cyflwynwyd ymatebion hefyd gan ddetholiad o athrawon, staff cymorth a llywodraethwyr ysgol yn ogystal â phartion â diddordeb ymysg y cyhoedd.
- Roedd tua un rhan o bump (19%) o ymatebion yn gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Ysgol Arbennig The Hollies. Dyma'r lefel uchaf o wrthwynebu ymysg yr holl gynlluniau.




Cododd 37 o ymatebwyr bryderon penodol mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig.

Yn gyffredinol, roedd y rhai a roddodd sylwadau yn gwrthwynebu cynigion i symud i safle wedi'i rannu. Roedd rhai yn teimlo'n gryf y byddai'r 'pontio deublyg' hwn yn brofiad negyddol i ddisgyblion sydd wedi'u cael diagnosis Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA).

*"Gan fod plant a phobl ifanc ag ASA yn ei chael hi'n anodd ymdopi ag unrhyw fath o newid, byddai gweithredu ar ddau safle yn peri pryder ac yn effeithio ar eu hyder a'u hymdeimlad o gysur." (Rhiant)*

Hefyd teimlwyd y byddai symud i safle wedi'i rannu yn rhoi straen diangen ar dîm arwain newydd, yn gwastraffu amser staff ac ychwanegu at gostau gweinyddol. Roedd safle arfaethedig Glan Morfa wedi'i ddisgrifio fel 'anaddas', gan ei fod mewn ardal o draffig prysur ac angen llawer o waith moderneiddio ac adnewyddu i'w wneud yn addas i'r diben.

Fel dewis amgen, roedd ymatebwyr yn awyddus iddynt ystyried ymestyn a moderneiddio safle presennol Hollies. Er y byddai hyn o bosibl yn arwain at gynnydd o ran niferoedd


disgyblion, roedd nifer o awgrymiadau hefyd yn nodi'r manteision o ymestyn y ddarpariaeth gyfredol yn Hollies hyd at 16+ oed.

Nodwyd bod angen cyfathrebu gwell rhwng y Cyngor a The Hollies i sicrhau bod unrhyw gynlluniau a gyflwynir yn y dyfodol yn cael eu gwneud gydag ymglymiad llawn y rhai yr effeithir arnynt a dealltwriaeth a rennir o'r materion perthnasol.

**YSGOL ARBENNIG MEADOWBANK**

Mae lleoedd gwag yn y lleoliad ar hyn o bryd. Mae cynnig yn bodoli i ymestyn dynodiad yr ysgol o anawsterau iaith penodol i gynnwys anableddau dysgu cymhleth.

- Derbyniwyd tri ymateb gan rieni â phlant ar gofrestr yr ysgol.
- Cyflwynwyd ymatebion ychwanegol gan athrawon, staff, y corff llywodraethu a'r Pennaeth yn ogystal â phartion â diddordeb ymysg y cyhoedd.
- Roedd saith o ddeg ymateb o blaid y cynigion. Dim ond 4% oedd yn gwrthwynebu ac roedd 27% yn parhau'n ansicr.




Cododd deg ymatebydd bryderon penodol mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth ADY yn Ysgol Arbennig Meadowbank Yn gyffredinol, roedd sylwadau'n canolbwyntio ar y diwygiadau arfaethedig i'r meini prawf ar gyfer derbyn. Roedd angen sicrwydd na fyddai cymysgu anawsterau iaith a lleferydd gydag anghenion dysgu cymhleth yn cael effaith negyddol ar unrhyw un o'r grwpiau hynny. Awgrymodd ymatebwyr y dylid

sefydlu dosbarth cwbl ar wahân i ddiwallu anghenion y disgyblion hynny ag anghenion dysgu cymhleth, fodd bynnag, roedd rhai eisiau eglurhad o ran diffiniad o'r term.

*"Mae gan yr holl blant yn Meadowbank y gallu i wella'n barhaus ac rwy'n bryderus nad oes gan blant ag anghenion dysgu mwy cymhleth y gallu i wella a chael galluoedd dysgu statig." (Rhiant)*

*"Os caiff Meadowbank ei agor i ystod ehangach o anghenion, lle bydd plant ag anawsterau lleferydd yn mynd? Lle byddan nhw'n cael y cwricwlwm penodol â ffocws cryf ar iaith?" (Myfyriwr)*

Gwnaed sawl cyfeiriad hefyd at yr adnoddau arbenigol presennol a'r staff medrus sydd ar gael yn Meadowbank sy'n gallu cynnig ymyrraeth gynnar ar gyfer anawsterau iaith a lleferydd, yn debyg i'r rhai a gynigiwyd ar gyfer Ysgol Gynradd Allensbank.

## Ymgynghoriad Disgyblion

Cynhaliwyd gweithgareddau ymgysylltu yn yr ystafell ddosbarth gyda deuddeng plentyn rhwng 6 a 11 oed.

Roedd y lle tu allan yn flaenoriaeth gan y plant ac yn enwedig eu 'llong môr-leidr' a enwyd fel eu hoff le i chwarae.

*"Rwy'n hoffi chwarae ar yr iard chwarae, dyna fy hoff le – rwy'n hoffi'r llong môr-leidr".*

Nodwyd bod y neuadd ysgol yn bwysig gan ei bod yn cael ei defnyddio ar gyfer nifer o wahanol weithgareddau gan gynnwys AG, a cherddoriaeth, dau o hoff weithgareddau'r disgyblion.

Roedd tripiau ysgol yn rhywbeth yr oedd y disgyblion yn ei fwynhau gyda'r parc, trampolîn, *Jump*, Mambo's a nofio (Sblot – grŵp hŷn yn unig) ymysg y gweithgareddau poblogaidd.

Nid oes gan Meadowbank gegin ysgol weithredol ar hyn o bryd felly nid oes unrhyw fwyd yn cael ei baratoi ar y safle. Caiff prydau eu danfon i'r llond llaw o ddisgyblion a daw'r gweddill â phecyn bwyd. Mae hyn yn rhywbeth y byddai angen i ni ei sortio pe bai'r niferoedd disgyblion yn cynyddu.

Cytunodd un ar ddeg o'r deuddeg disgybl y byddai cael mwy o bobl yn eu dosbarth yn beth da. Roedd sylwadau cadarnhaol yn cynnwys:

*'Mwy o bobl i chwarae tu fas â nhw'*

*'Mwy o bobl i rannu â nhw'*

Yn yr un modd, roedd mwyafrif y disgyblion wedi eu cyffroi gan y posibilrwydd o gael mwy o le yn y dosbarth ac heb unrhyw bryderon am y newidiadau. I leiafrif bychan fodd bynnag, roedd y syniad o fwy o bobl ac amgylchedd prysurach yn codi pryder gyda sylwadau yn cynnwys:

*"Bydd hi braidd yn gyfyng"*


*"Mae stafelloedd mwy yn codi ofn arnaf"*

*"Rwy'n poeni y bydd hi'n rhy swnllyd"*

**YSGOL GYNRADD YR EGLWYS YNG NGHYMRU Y FORWYN FAIR**
Nid oes cymorth arbenigol ar gael yn y safle hwn ar hyn o bryd. Cynigir y dylid agor adnodd ar gyfer hyd at 20 disgybl yn yr ysgol fel rhan o adeilad newydd yn y dyfodol.

- Dim ond un ymateb a dderbyniwyd gan lywodraethwr ysgol y mae ganddo hefyd blentyn ar gofrestr yr ysgol. Cafwyd ymatebion ychwanegol gan bartïon â diddordeb o'r gymuned ehangach.

- Roedd saith o ddeg ymateb (71%) o blaid y cynigion. Dim ond 3% oedd yn gwrthwynebu, fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol (27%) yn parhau'n ansicr.





Dim ond tri ymatebydd a gododd bryderon penodol mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair. Roedd y rhain yn cynnwys cwestiwn ynghylch sut y byddai'r cyfleuster yn cael ei ariannu a'i staffio a chwestiynwyd yr arbenigedd presennol sydd ar gael, o ystyried nad yw'r ysgol wedi cael canolfan adnoddau arbenigol ar y safle o'r blaen.

Roedd rhywun arall o'r farn bod darparu 20 lle yn eithaf tipyn ar gyfer darpariaeth cwbl newydd a rhywun arall yn cwestiynu p'un a fyddai cymorth iaith a lleferydd ar gael yn y ganolfan adnoddau arbenigol i'r disgyblion hynny a fyddai'n dechrau yn yr ysgol gyda Saesneg fel ail iaith.

**YSGOL ARBENNIG TŶ GWYN**
Cynigir cynyddu nifer y lleoedd i 198 drwy osod 3 ystafell ddosbarth newydd gan gynnwys ailddatblygu canolfan ieuenctid Trelái.

- Derbyniwyd 14 ymateb gan rieni gyda phlant ar gofrestr yr ysgol gydag un ohonynt yn llywodraethwr ysgol hefyd. Cafwyd ymatebion ychwanegol gan bartion â diddordeb o'r gymuned ehangach.

- Roedd tua saith o ddeg ymatebydd (69%) o blaid y cynigion i gynyddu nifer y lleoedd disgyblion yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn. Dim ond 6% oedd yn erbyn y cynlluniau er bod chwarter (25%) yn parhau'n ansicr.




Cododd saith ymatebydd bryderon penodol mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn.

Disgrifiodd ymatebwyr Tŷ Gwyn fel cyfleuster ag adnoddau da tra mae nifer o bobl ifanc yn yr ardal yn teithio i gyrchu gwasanaethau arbenigol mewn mannau eraill. Awgrym arall oedd y dylai adnoddau gael eu lleoli mewn ardaloedd lleol gyda mynediad a rennir. Teimlwyd y byddai hyn yn sicrhau budd i'r gymuned ehangach. Mynegwyd bod cynnig cymorth lles i ferched uwchradd ac adnoddau ychwanegol ar gyfer ACE's, yn enwedig wrth bontio o addysg gynradd i uwchradd yn feysydd penodol sydd angen sylw.

*"Agwedd byr-olwg yw ymgorffori Ysgubor Trelái yn ffederasiwn yr ysgolion arbennig pan fo ysgolion cynradd prif ffrwd yn ymrafael gydag anghenion disgyblion sydd yn galw am gefnogaeth arbenigol i'r un graddau, gydag ysgolion cynradd yn gorfod ymdopi â dosbarthiadau o 30." (Llywodraethwr Ysgol, Ysgol Uwchradd Gorllewin Caerdydd)*

Mynegodd rhai rhieni bryderon o ran y pwysau ychwanegol ar adnoddau presennol y byddai disgyblion ychwanegol yn ei roi. Er yn ôl y sôn bod nifer yr athrawon wedi cynyddu yn unol


â'r galw, nid oes digon o staff meddygol fel Therapyddion Galwedigaethol a Therapyddion Iaith a Lleferydd. Hefyd roedd rhieni yn bryderus o ran sut y byddai niferoedd cynyddol yn effeithio ar ymdeimlad a diwylliant yr ysgol:

*"Rwy'n bryderus bod yr ysgol eisoes yn un fawr." Dw i ddim eisiau colli'r pethau positif fel staff yn nabod yr holl ddisgyblion. (Rhiant)*

*"...wrth i'r blynyddoedd fynd heibio mae'r ysgol wedi bod yn derbyn mwy a mwy o ddisgyblion. Mae'r staff addysgu hefyd wedi cynyddu i ymdopi â'r ehangiad hwn, ond, yn anffodus, mae nifer yr aelodau staff meddygol (Therapydd Lleferydd, Therapydd Galwedigaethol a'r Ffisiotherapydd) wedi parhau ar yr un lefel. Byddai mwy o ddisgyblion yn rhoi mwy o straen ar y gwasanaethau hyn."*

**YSGOL GLANTAF**
Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau arbenigol ar gyfer 13 disgybl ar hyn o bryd. Cynigir cynyddu nifer y lleoedd yn y ganolfan anodau arbenigol i 30.

- Daeth wyth ymateb gan rieni plant sydd ar gofrestr yr ysgol.
- Cymerodd 14 athro o'r ysgol ran yn yr arolwg yn ogystal â llywodraethwr ysgol. Cafwyd ymatebion ychwanegol i'r ymgynghoriad gan bartïon â diddordeb o'r gymuned ehangach.




Dim ond 2% o ymatebion oedd yn gwrthwynebu'r cynigion mewn perthynas â Glantaf. Cafodd y syniad o ymestyn yr arferion rhagorol cyfredol gefnogaeth helaeth fodd bynnag mynegodd aelodau'r gymuned ysgol hefyd bryderon difrifol ynghylch sut bydd hyn yn cael ei reoli o ran y lle sydd ar gael.

*"Mae'r gofod presennol ar gyfer y dysgwyr hyn yn gyfyngedig a bydd gofyn am fuddsoddiad sylweddol a helaeth i ateb yr anghenion unigol a'r heriau amrywiol a gaiff eu profi gan lawer mwy o ddisgyblion ag anghenion amrywiol." (Llywodraethwr Ysgol ADY Ysgol Glantaf)*




Mae'r gofod presennol yn caniatáu lle i 10 disgybl fodd bynnag mae 13 yno'n barod a disgwylir 16 ym mis Medi 2018. Hefyd mae nifer o ddisgyblion sydd angen llai o gymorth hefyd yn defnyddio'r ganolfan adnoddau arbenigol, sy'n golygu bod tua 20 yn defnyddio'r gofod ar hyn o bryd. Mae angen cyfathrebu pellach yn gysylltiedig â'r manylion o ran sut a lle y gellir lleoli disgyblion ADY ychwanegol.

## Ymgynghoriad Disgyblion

- Cymerodd 366 o ddisgyblion ran mewn arolwg i gofnodi eu safbwyntiau ar y newidiadau arfaethedig. Cynhaliwyd gweithgareddau ymgysylltu pellach ychwanegol gyda 13 disgybl rhwng 11 a 18 oed sy'n defnyddio'r ganolfan adnoddau arbenigol ar hyn o bryd.

- Roedd 87% o ddisgyblion unai'n 'hapus' neu'n 'hapus iawn' gyda'r cynigion a amlinellwyd. Dim ond 4% oedd ag unrhyw wrthwynebiad i'r cynlluniau.

**Ar raddfa o un i 5 (1 Hapus Iawn a 5 Trist Iawn) sut rydych chi'n teimlo am y newidiadau a gynigir?**

| 1 Hapus Iawn | 2 | 3 | 4 | 5 Trist Iawn |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| **254** | **67** | **33** | **9** | **3** |
| **69%** | **18%** | **9%** | **3%** | **1%** |

- Roedd canlyniadau cadarnhaol yn ymwneud â'r cynnig yn cynnwys y byddai'r ysgol yn adlewyrchu'r gymdeithas yn well ac "yn teimlo mwy fel cymuned". Roedd disgyblion yn awyddus i weld 'ystod ehangach o gymeriadau a galluoedd' yn yr ysgol ac yn meddwl ei bod yn bwysig bod mwy o blant ag anghenion cymhleth yn cael y cyfle i ddysgu i siarad Cymraeg a/neu dderbyn eu haddysg yn eu hiaith gyntaf.

- Roedd pryderon a godwyd gan ddisgyblion yn cynnwys: argaeledd lle addas, y byddai pawb yn trin disgyblion newydd yn gyfartal ac yn deg ac y byddai cyllid yn cael ei gymryd o ardaloedd a phrojectau eraill yn yr ysgol i ariannu'r project.

- Mae'r holl ddisgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol hefyd yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Pan ofynnwyd am eu hoff le yn yr ysgol dywedodd nifer o ddisgyblion mai'r ganolfan adnoddau arbenigol oedd hwnnw. Cafodd y ganolfan ei disgrifio fel lle i 'ymlacio' a chael mynediad i'w loceri a'u heiddo personol.

- Roedd y disgyblion ag ADY yn gyffredinol yn hapus iawn â phob agwedd ar eu bywyd ysgol. Roedd lle tu allan sy'n cael ei flaenoriaethu er defnydd disgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol yn cynnwys lle i ymlacio a chyfleoedd i dyfu ffrwythau a llysiau.

- Roedd disgyblion hefyd yn mwynhau cyfleoedd i fynd i ddosbarthiadau nofio ac ar deithiau ysgol. Roedd ymweliadau diweddar wedi cynnwys y theatr, Amgueddfa Sain Ffagan, y Story Arms a Chanolfan Arddio Pugh.

- Roedd y grŵp yn gwerthfawrogi'r ystafell synhwyrau yn fawr. Roedd y lle yn cael ei ddefnyddio i ymlacio, dawnsio a gwrando ar gerddoriaeth. Er bod yr ystafell hon yn cael ei hystyried fel blaenoriaeth soniodd y disgyblion hefyd am y diffyg lle, rhywbeth a fyddai'n broblem pe bai mwy o ddisgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol.

  *"Hoffwn pe bai'r ystafell yn fwy, dim ond lle i ddau sydd yno ar hyn o bryd".*

- Roedd y mwyafrif o'r grŵp yn teimlo'n bositif am y posibiliad o fwy o ddisgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol. Nododd y rhai a ddisgrifiodd y newid posibl fel rhywbeth 'da' y byddai hyn yn golygu *"ffrindiau newydd"* a *"mwy o bobl i chwarae gyda hwy."*

- Roedd y rhai a oedd yn teimlo bod cynnydd mewn niferoedd yn beth gwael yn poeni y byddai gormod o ddisgyblion yno. Esboniodd un disgybl y byddai'n ei chael hi'n anodd yn emosiynol i ddod i gysylltiad â nifer fawr o bobl wrth fynd i mewn i ddosbarth a dywedodd rhywun arall:

  *"Byddai'n brysur, rwy'n hoffi awyrgylch tawel"*

| **Byddai mwy o bobl yn fy nosbarth yn beth ....** | | |
|---|---|---|
| DA | GWAEL | DDIM YN SIŴR |
| 7 | 4 | 2 |

- Roedd mwyafrif y grŵp yn meddwl bod y posibiliad o gael mwy o le yn rhywbeth cadarnhaol. Roedd disgyblion yn gobeithio y byddai hyn yn eu galluogi i: *"symud o gwmpas yn fwy rhydd" ac "i beidio â theimlo mor clawstroffobig".*

| **Byddai mwy o le yn fy nosbarth yn beth ....** | | |
|---|---|---|
| DA | GWAEL | DDIM YN SIŴR |
| 12 | 1 | 0 |

- Mae chwe chyfrifiadur yn y ganolfan adnoddau arbenigol ar hyn o bryd. Mae dsgyblion yn mwynhau defnyddio'r rhain i wneud ymchwil ar-lein, creu cyflwyniadau PowerPoint a chwarae gemau cyfrifiadurol yn eu hamser rhydd. Ystyriwyd bod cynyddu nifer y peiriannau yn angenrheidiol i gynnal y lefel mynediad presennol pe bai'r niferoedd disgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol yn cynyddu.

- Roedd mwy o sŵn yn y lle yn bryder i sawl disgybl gyda sylwadau'n cynnwys:

*"Os ydych yn gwneud gwaith ac yn ceisio canolbwyntio mae'n beth gwael"*

*"Byddai llai o waith yn cael ei wneud a mwy o siarad".*

| **Byddai mwy o sŵn yn fy nosbarth yn beth ....** | | |
|---|---|---|
| DA | GWAEL | DDIM YN SIŴR |
| 2 | 7 | 4 |

- Er bod y mwyafrif o ddisgyblion eisiau sicrhau nad yw eu hystafell ddosbarth yn newid, roedd nifer o ddisgyblion o blaid y diweddariadau. Roedd hyn yn cynnwys ehangu'r ystafell synhwyraidd ac ychwanegu tai bach bechgyn / merched a lle newid penodol. (Ar hyn o bryd dim ond un tŷ bach / lle newid sydd yn y ganolfan adnoddau arbenigol sy'n cael ei rannu gan yr holl ddisgyblion. Roedd mynediad i ardal newid addas yn angenrheidiol gan fod nifer o'r disgyblion yn ei chael hi'n anodd ymdopi gyda'r awyrgylch swnllyd a phrysur yn y prif adeilad ysgol ac yn defnyddio'r cyfleusterau yn y ganolfan adnoddau arbenigol yn lle).


- Yn gyffredinol, mynegodd y disgyblion lefel uchel o gefnogaeth i'r cynlluniau i gael gofod mwy a mwy o ddisgyblion.

| **Rwy'n hoffi'r newidiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer fy nosbarth...** | | |
|---|---|---|
| YDW | NAC YDW | DDIM YN SIŴR |
| 10 | 0 | 2 |

**YSGOL PWLL COCH**

Nid oes unrhyw gymorth arbenigol ar gael ar y safle hwn ar hyn o bryd. Cynigir agor adnodd i 10 disgybl yn y lle cyntaf (gyda'r posibiliad o dyfu i 20) mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg.

- Cafwyd 47 ymateb gan rieni disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol.
- Fe wnaeth deg o athrawon a llywodraethwyr ysgol o Ysgol Pwll Coch hefyd gymryd rhan yn yr arolwg a daeth gweddill yr ymatebion gan bartion â diddordeb yn y gymuned ehangach.
- Mynegwyd cefnogaeth ar gyfer y cynigion mewn ymateb unigol ar wahân gan Gorff Llywodraethu Ysgol Pwll Coch.
- Derbyniodd y cynigion ar gyfer cyflwyno darpariaeth ADY yn Ysgol Pwll Coch y lefel uchaf o gefnogaeth yn yr ymgynghoriad.




Amlygodd un ar ddeg ymatebydd bryderon penodol dros y cynigion ar gyfer Ysgol Pwll Coch.

Yn bennaf roedd y rhain yn ymwneud â'r logisteg o ran gweithredu yn hytrach na phryder dros gyflwyno'r adnodd. Roedd ymatebwyr yn awyddus i ddeall y manylion o ran sut y byddai'r uned yn cyd-fynd â gweddill yr ysgol o ran gwersi, cinio a chwarae. Roeddent hefyd eisiau esboniad pellach o ran pwy h.y. oedrannau ac ati y byddai'r dosbarth ar ei gyfer, ac eisiau cadarnhad y byddai'r cyfleuster yn cael ei ariannu a'i staffio'n briodol.

*"Dw i'n pryderu a fydd adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i gynnig amgylchedd dysgu addas i'r holl ddisgyblion yn yr ysgol a safon uchel o gyfleusterau ar gael i ateb anghenion plant ag anghenion penodol." (Llywodraethwr Ysgol)*